**Tŷ Penallta,**
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Penallta House,**
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol**
**Corporate Director – Education and Corporate Services**

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

Lawrlwythwch y ffurflen, ei llenwi gan ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU BLOC ac INC DU, a'i hanfon i:

Adran Treth y Cyngor
Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed CF82 7PG

## TRETH Y CYNGOR
## GOSTYNGIAD BAND OHERWYDD ANABLEDD

Os yw eich eiddo chi wedi'i addasu'n sylweddol i ddiwallu anghenion preswyliwr anabl e.e. ystafell arall wedi'i hychwanegu neu le i ddefnyddio cadair olwyn tu fewn, mae'n bosib bod gennych chi'r hawl i gael Gostyngiad oherwydd Anabledd. Os ydych chi'n gymwys, bydd eich rhwymedigaeth i dalu Treth y Cyngor yn seiliedig ar y band yn **union o dan** y band sy'n ymddangos wrth ymyl eich eiddo yn Rhestr Bandiau Treth y Cyngor ar hyn o bryd.

**YR YMGEISYDD**

Enw'r Ymgeisydd: ____________________________________________
(*rhaid iddo fod y person sy'n rhwymedig i dalu Treth y Cyngor*)

Cyfeiriad:

____________________________________________

______________________________ Cod post ____________________

Enw'r Person Anabl: ______________________________ (os yw'n wahanol i'r ymgeisydd)
Dyddiad geni (os yw o dan 18 oed) ____/____/_______

Natur yr Anabledd: ____________________________________________

____________________________________________

---

Y dyddiad yr hoffech chi ddechrau hawlio'r gostyngiad ____/____/_____________

**Noder:**
**Byddai'n helpu, wrth ystyried eich cais, os gallech chi ddarparu llythyr gan eich meddyg teulu neu weithiwr proffesiynol arall, er enghraifft therapydd galwedigaethol neu weithiwr cymdeithasol, sy'n cadarnhau bod eich cais chi'n dod o dan un neu ragor o'r categorïau ar y dudalen nesaf.**

| YR ANNEDD | BYDD Y NODIADAU HYN YN EICH HELPU CHI I ATEB Y CWESTIYNAU ISOD |
|---|---|

**NODIADAU**:

(a) Pan fo'r cwestiynau isod yn cyfeirio at angen unrhyw beth i ddiwallu anghenion y person anabl, mae hyn yn meddwl bod rhaid iddo fe fod yn hanfodol neu'n bwysig iawn i les y person anabl oherwydd natur a graddau'r anabledd.

(b) Yn achos y cais hwn, mae angen cadair olwyn ar gyfer diwallu anghenion person os oes angen i'r person hwnnw ei defnyddio hi yn ardal fyw'r annedd.

(c) **Nid** yw'r mathau canlynol o addasiadau i bobl anabl yn bodloni'r meini prawf wedi'u nodi yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ac **ni fyddan nhw'n gymwys ar gyfer gostyngiad**: lifftiau grisiau, cawodydd, canllawiau i'r grisiau, canllawiau gafael, rampiau mynedfa/allanfa, mân addasiadau i alluogi symud cadair olwyn o fewn yr eiddo, gwres canolog.

**A OES**: (*Ticiwch (✓) y blwch perthnasol*)

1. Ystafell (heb fod yn ystafell ymolchi, cegin neu dŷ bach) sy'n cael ei defnyddio yn bennaf gan y person/personau anabl, ac sydd ei hangen ar gyfer diwallu ei anghenion/eu hanghenion — Oes ☐ Nac oes ☐
2. Ystafell ymolchi ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer diwallu anghenion y person/personau anabl. — Oes ☐ Nac oes ☐
3. Cegin ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer diwallu anghenion y person/personau anabl. — Oes ☐ Nac oes ☐
4. Arwynebedd llawr digonol i alluogi defnyddio cadair olwyn sydd ei hangen ar gyfer diwallu anghenion y person/personau anabl. — Oes ☐ Nac oes ☐

**DATGANIAD – RHAID LLENWI'R DATGANIAD HWN**

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ac rwy'n deall bod rhaid i mi roi gwybod i'r Cyngor ar unwaith os bydd unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau yn newid. Rwy'n awdurdodi'r Cyngor i ymgymryd ag unrhyw arolygiad a/neu wiriadau i wirio manylion y cais hwn. Rwy'n caniatáu i'r wybodaeth gael ei phrosesu at ddibenion asesu a chasglu Treth y Cyngor gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Llofnod: ____________________ Ffôn: ____________________

Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐

Enw llawn: ____________________ Dyddiad:______/______/______

*(Priflythrennau bloc)*

**RHYBUDD – GALL RHOI GWYBODAETH ANWIR ARWAIN AT ERLYNIAD**

**Hysbysiad Preifatrwydd Cryno – Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth**

Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Bydd yn cael ei defnyddio gan weithwyr awdurdodedig a chyrff allanol ar gyfer y dibenion canlynol:
Rheoli, gweinyddu a chasglu Treth y Cyngor, i gadarnhau cymhwysedd ar gyfer mathau eraill o ryddhad a lwfansau statudol; atal a chanfod twyll, er mwyn diogelu arian cyhoeddus; at ddibenion Etholiadol; cael hyd i unigolion ar gyfer achosion diogelu plant neu oedolion agored i niwed; cael hyd i unigolion o ran materion gorfodi awdurdodau lleol a helpu adennill arian sy'n ddyledus i'r Cyngor a helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.
I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, defnyddiwch y ddolen ganlynol:
www.caerffili.gov.uk/HysbysiadPreifatrwyddTrethyCyngor

This publication is available in English, and in other languages and formats on request.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.